

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y swydd	Swyddog Dysgu Digidol Iau
Adran:	TGCh
Isadran:	Tîm Cynhyrchu Dysgu Digidol
Yn atebol i:	Y tîm cefnogi/Rheolwr sicrhau ansawdd
Gradd:	5
Lleoliad:	Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd
Prif ddiben y swydd:	

Cymryd cyfrifoldeb am reoli'r gwaith o awduro adnoddau i gefnogi portffolio cymwysterau CBAC ac Eduqas.

Cefnogi'r tîm cynhyrchu dysgu digidol y broses ddylunio ar gyfer hyfforddi o'r cychwyn hyd at y cymeradwyo, er mwyn hwyluso proses ddiraffferth o'r cynnwys crai i'r cynnyrch digidol.

Cysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol CBAC i sicrhau y darperir y cynnwys yn amserol.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

- Rhoi'r holl agweddau perthnasol ar gynllun strategol y tîm datblygu digidol ar waith, gan geisio cyngor uwch-gydweithwyr lle y bo'n berthnasol.
- Rheoli projectau'n briodol i sicrhau bod y cynllun datblygu blynyddol yn cael ei ddarparu'n effeithiol, gan gynnwys dogfennau hanfodol a gweithdrefnau olrhain.
- Cyfrifoldeb am yr holl weithgareddau perthnasol sy'n rhan o'r broses o ddatblygu cynnwys sydd wedi'i baratoi fel bwrdd stori yn barod i'w ddatblygu.
- Sefydlu prosesau monitro gwaith effeithiol er mwyn sicrhau bod y cynnwys sydd wedi'i awduro yn addas i'r pwrpas ac yn diwallu anghenion y briff.
- Creu amserlenni ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol a bod yn gyfrifol am sicrhau bod darparwyr allweddol yn darparu'n unol â'r amserlen arfaethedig.
- Addasu deunyddiau gwreiddiol gan awduro mewn modd creadigol ac arloesol ar draws pob maes pwnc, gan ystyried gofynion rhanddeiliaid a defnyddio potensial technolegau presennol mewn modd llawn dychymyg i feithrin addysgeg effeithiol.
- Ymdrin yn briodol â materion a allai godi wrth addasu gwaith sydd wedi'i awduro gan bobl eraill a all, ar adegau, fod yn anodd a chynhennus, gan uwchgyfeirio at yr Uwch Reolwyr lle y bo'n briodol.
- Rhoi cyngor i awduro project ynghylch materion hawlfraint, a chefnogi gwaith yr Uwch Swyddog Cefnogi i sicrhau y gofynnir am ganiatâd mewn modd amserol, ac y cedwir cofnodion digonol o'r caniatâd a roddwyd a'r cyfyngiadau a nodwyd.
- Sicrhau bod gwaith yn cael ei wirio am lôn-ladrad a bod awduro yn deall yr angen i ddyfynnu ffynonellau'n briodol.
- Gweithio'n agos gyda'r golygyddion digidol, y tîm datblygu digidol a'r tîm cefnogi digidol i sicrhau bod yr holl adnoddau'n mynd drwy'r cylch datblygu mor effeithlon â phosibl.

- Monitro ansawdd ar draws yr amrywiaeth o ddeunyddiau digidol, gan gadw mewn cysylltiad ag awduron a swyddogion pwnc i sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer yr ystafell ddosbarth.
- Cymryd rhan mewn adolygon ar ddiwedd pob project i sicrhau bod y gwersi a ddysgir yn llywio pob project newydd.

Manyleb y Person

Teitl y swydd:	Swyddog Dysgu Digidol Iau
Adran:	TGCh

Meini prawf hynod ddymunol yw'r sgiliau a'r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol. Meini prawf dymunol yw'r rhai a fyddai'n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

Sgiliau a Galluoedd

Hynod ddymunol

- Lefel uchel o sgiliau rhyngpersonol
- Gallu gweithio i derfynau amser tynn gyda chyn lleied o oruchwyliaeth â phosibl
- Sgiliau rheoli project a monitro rhagorol
- Y gallu i ddatblygu a darparu cynlluniau project effeithiol a sicrhau y bodlonir terfynau amser
- Y gallu i gysyniadu adnoddau addysgol arloesol
- Y gallu i sicrhau ansawdd adnoddau digidol ar draws amrywiaeth o bynciau
- Y gallu i ddylanwadu ar bobl ar bob lefel
- Sgiliau cyfathrebu effeithiol, gan gynnwys y gallu i roi cyflwyniadau hyderus i wahanol gynulleidfaoedd
- Y gallu i ymateb mewn modd addas o dan bwysau

Gwybodaeth

Hynod ddymunol

- Gwybodaeth am botensial a chyfyngiadau'r cyfrwng digidol ar gyfer creu deunydd addysgol/hyfforddi o ansawdd uchel
- Diddordeb brwd mewn adnoddau addysgol

Profiad

Hynod ddymunol

- Profiad ymarferol o reoli projectau
- Profiad o weithio gyda rhanddeiliad allanol

Hyfforddiant / Cymwysterau

Hynod ddymunol

- Cymhwyster gradd neu gymhwyster cyfatebol

Dymunol

- Cymhwyster rheoli projectau

Telerau ac Amodau Gwasanaeth

Terms and Conditions of Service

Teitl y Swydd:
Job Title:Swyddog Dysgu Digidol IauCyflog:
Salary:

£23,463 - £25,488

Gradd:
Grade:

5

Gwyliau
Blynyddol:

25 Diwrnod y flwyddyn. Mae CBAC yn caniatáu 16 o ddyddiau statudol/ychwanegol o wyliau yn ogystal ar hyn o bryd.

Annual Leave:

25 Days per annum. In addition, the WJEC currently allows 16 statutory / additional holidays

Pensiwn:

Gweithredir darpariaeth y Ddeddf Bensiwn Llywodraeth Leol

Pension:

The provision of the Local Government Superannuation Act apply

Math o Gytundeb:

Contract Type:

 Llawn-amser / Full Time Rhan-amser / Part Time Llawn-amser Tymor Cyfyngedig / Full Time Limited Term Rhan-amser Tymor Cyfyngedig / Part Time Limited TermNifer yr oriau yr wythnos
No of hrs per weekDiwedd y Tymor
End of Term

30/09/2021

Diwedd y Tymor
End of TermNifer yr oriau yr wythnos
No of hrs per week

36.5

Dull Ymgeisio:

Method of Application:

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at ad@cbac.co.uk neu eu postio i'r Uned Adnoddau Dynol, CBAC, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd, CF5 2YX erbyn 22 Hydref 2020

Completed forms should be sent by email to hr@wjec.co.uk or returned by post to the Human Resources Unit, WJEC, 245 Western Avenue, Cardiff CF5 2YX by 22 October 2020